

# Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

Adroddiad cynnydd 2017–19



## Cynulleidfa

Gweithluoedd ysgolion yn y sector cynradd; cyrff llywodraethu; rhieni a gofalwyr; consortia rhanbarthol; awdurdodau lleol; undebau gweithluoedd ac awdurdodau esgobaethol.

## Trosolwg

Un o'n camau gweithredu allweddol mewn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* yw 'lleihau maint dosbarthiadau babanod, gan dargedu'r rhai a fydd yn elwa fwyaf a chefnogi athrawon i godi safonau i bawb'. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau maint dosbarthiadau babanod yn yr ysgolion a gyllidir gan y grant.

## Camau i'w cymryd

Dim – mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru](mailto:SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru)



[@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

## Copïau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru](http://llyw.cymru)

## Dogfennau cysylltiedig

*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017)

# Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	4
Cyflwyniad	6
Monitro a gwerthuso	9
Effaith ansoddol y grant	12
Rhwystrau a gwersi a ddysgwyd	16
Codi safonau i bawb: Adborth gan ysgolion	17
Astudiaeth achos: Enghraifft o sut mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio mewn un awdurdod lleol	19
Atodiad A: Rhestr o ysgolion sydd wedi elwa ar y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	21
Atodiad B: Crynodeb o waith cyfalaf	24

# Rhagair gan y Gweinidog



Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddi. Lleihau maint dosbarthiadau babanod, gan dargedu'r rhai a fydd yn elwa fwyaf a chefnogi athrawon i godi safonau i bawb yw un o'r camau gweithredu allweddol a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cenhadaeth ein Cenedl.

Fel rhan allweddol o'r Cytundeb Blaengar rhyngof fi a'r Prif Weinidog, mae hyn wedi arwain at gyllid sydd wedi cyflogi mwy o athrawon a chynorthwywyr dysgu, wedi lleihau maint dosbarthiadau, wedi gwella perfformiad ysgolion ac wedi cefnogi'r dysgwyr hynny y mae angen y cymorth ychwanegol hwnnw arnynt i gyrraedd y safonau uchaf. Dros oes Llywodraeth Cymru hon, rydym yn buddsoddi £36 miliwn trwy'r Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod. Hoffwn ddiolch i'r awdurdodau lleol hynny ledled y wlad sydd wedi cefnogi swyddogion y llywodraeth a phenaethiaid i sicrhau bod yr arian hwn yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth.

Dengys gwaith ymchwil a thystiolaeth ryngwladol fod lleihau maint dosbarthiadau yn cael yr effaith fwyaf ar y grŵp oedran ieuengaf. Gwyddom hefyd fod yr effaith yn gryfach ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd tlotach a/neu sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol, ac mae lleihau yn cael yr effaith fwyaf pan gyfunir hynny â newidiadau a diwygiadau i addysgu ac addysgeg.

Felly, yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae ein buddsoddiad mewn cyllid refeniw a chyfalaf wedi targedu'r ysgolion sydd â'r dosbarthiadau babanod mwyaf o ran maint mewn ysgolion lle mae angen gwella dysgu ac addysgu, lle mae lefelau uchel o amddifadedd a lle nad yw Cymraeg na Saesneg yn ieithoedd cyntaf.

Rwy'n credu na all unrhyw ysgol na system addysg fod yn gryfach na'i hathrawon a'u haddysgu. Rwy'n hynod falch bod 115 o ysgolion ledled Cymru yn elwa ar y cyllid drwy benodi mwy na 150 o staff addysgu a chreu 52 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol. Mae'r grant hefyd yn ariannu'r gwaith o ailfodelu ac uwchraddio ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau presennol ac sydd hefyd yn cefnogi mentrau eraill Llywodraeth Cymru, megis y Cynnig Gofal Plant.

Nid yw'r grant hwn yn cael ei gyflwyno ar ei ben ei hun ond mae'n rhan o gyfres ehangach o raglenni i helpu i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd o ran sut y mae ysgolion yn defnyddio'r grant i greu dosbarthiadau llai, gan alluogi athrawon i fod yn fwy arloesol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ysgolion, eu dysgwyr a'u hathrawon.

Rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn cefnogi athrawon a dysgwyr trwy leihau maint dosbarthiadau babanod.

**Kirsty Williams AC**  
**Y Gweinidog Addysg**





# Cyflwyniad

Ar ôl adolygu gwaith ymchwil a thystiolaeth ryngwladol<sup>1</sup>, mae'n dangos bod lleihau maint dosbarthiadau yn cael yr effaith fwyaf ar y grŵp oedran ieuengaf. Gwyddom hefyd fod yr effaith yn gryfach ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd tlotach a/neu sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol; ac mae lleihau hefyd yn cael yr effaith fwyaf pan gyfunir hynny â newidiadau a diwygiadau i addysgu ac addysgeg.

O'r holl astudiaethau amrywiol ar faint dosbarthiadau, ynghyd â pherfformiad gwell, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dosbarthiadau llai yn effeithio ar arferion addysgu, yn benodol y ffordd y mae athrawon yn trefnu eu grwpiau dosbarth a faint o amser y gallant ei neilltuo i blant unigol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn strategol yr hyn y gellir ei gyflawni drwy'r grant hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y rheng flaen a lle y mae ei angen fwyaf.

Y meini prawf ar gyfer y grant yw ysgol sydd ag un dosbarth babanod â 29 o ddysgwyr neu fwy mewn ysgolion sydd ag o leiaf un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM)
- lefelau sylweddol o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- lefelau sylweddol o ddysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)
- canlyniadau sy'n is na'r cyfartaledd, a lle y bernir bod ysgol yn y categori coch neu oren yn ôl y system gategoreiddio ysgolion.

## Nodi ysgolion

Mae awdurdodau lleol yn gweinyddu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno cynlluniau busnes yn dangos sut roeddent yn cynnig cyflawni'r nod sylfaenol o leihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion a oedd yn bodloni'r meini prawf a nodwyd. Ceir rhestr o'r 115 o ysgolion sy'n elwa ar y grant yn Atodiad A (tudalen 21).

Mae data gwaelodlin yn dangos bod yr ysgolion hyn yn cynnwys oddeutu 388 o ddosbarthiadau babanod, yr oedd 313 (81 y cant) ohonynt yn cynnwys 29 o ddysgwyr neu fwy. O'r 115 o ysgolion:

- roedd gan 70 y cant lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- roedd gan 80 y cant lefelau sylweddol o ddysgwyr sydd ag ADY
- roedd gan 30 y cant lefelau sylweddol o ddysgwyr CIY/SIY
- roedd 34 y cant yn y categori coch/oren yn y system gategoreiddio ysgolion.

<sup>1</sup> Prosiect *Student/Teacher Achievement Ratio (STAR)* gan dalaith Tennessee; *Lleihau Maint Dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd* (Estyn, 2003); astudiaeth *Class Size and Pupil Adult Ratio (CSPAR)* gan y Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain; Prosiect *Prime Time* gan dalaith Indiana; astudiaeth o faint dosbarthiadau gan Gymdeithas Athrawon Alberta.

O'r meini prawf uchod:

- roedd gan 8 y cant o'r ysgolion y bedair nodwedd
- roedd gan 26 y cant o'r ysgolion tair o'r nodweddion
- roedd gan 43 y cant o'r ysgolion dwy o'r nodweddion
- roedd gan 23 y cant o'r ysgolion un o'r nodweddion.

## Targedau

Bydd elfen referniw'r grant (£16 miliwn) yn ariannu 110 o athrawon ychwanegol a 42 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf targed.

Mae'r elfen gyfalaf y grant (£20 miliwn) yn creu cyfanswm o 59 o ystafelloedd dosbarth addas at y diben newydd, ynghyd â gwelliannau eraill i gyfleusterau presennol mewn 33 o ysgolion ledled Cymru. Mae'r elfen gyfalaf hefyd yn cefnogi polisiâu trawsbynciol megis y Cynnig Gofal Plant, Cymraeg 2050 a gwelliannau i ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif.

## Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

- Mae'r grant yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ysgolion a dysgwyr oed babanod ym mhob rhan o Gymru.
- Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2019/20, roedd 95 o athrawon ychwanegol a 40 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol wedi'u penodi.
- Mae maint dosbarthiadau babanod wedi lleihau yn yr ysgolion a dargedwyd ac maent bellach yn cynnwys 23 o ddysgwyr ar gyfartaledd.
- Hyd yn hyn, mae'r polisi wedi targedu 388 o ddsbarthiadau babanod.
- Mae nifer yr ysgolion a oedd yn y categori coch neu oren yn y system gategoreiddio ysgolion wedi lleihau yn ystod cyfnod y grant.
- Mae canran yr holl ddsbarthiadau babanod a dysgwyr mewn dosbarthiadau â thros 30 o blant ynddynt wedi lleihau ers cyflwyno'r grant.
- 770 yn fwy o ddysgwyr mewn dosbarthiadau o dan 20 dysgwr.
- 2,592 yn llai o ddysgwyr mewn dosbarthiadau o 29 o ddysgwr neu fwy.






# Monitro a gwerthuso

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro effaith y grant i ysgolion a'u dysgwyr. Fel rhan o'r broses fonitro, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro maint dosbarthiadau babanod yn yr ysgolion a gyllidir gan y grant, a'i effaith ar faint dosbarth babanod cyfartalog Cymru gyfan.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu drwy adroddiadau cynnydd gan awdurdodau lleol ac arolwg diwedd blwyddyn ysgol a roddodd adborth gan yr ysgolion. Dadansoddwyd data gennym hefyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).



- Mae canran y dysgwyr mewn dosbarthiadau babanod bach sydd ag 20 o ddysgwyr neu lai wedi cynyddu ers cyflwyno'r grant.
- Mae canran y dosbarthiadau babanod mawr wedi lleihau ers cyflwyno'r grant.

## Effaith y grant

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2019/20, roedd 95 o athrawon ychwanegol a 40 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol wedi'u penodi.

## Enghreifftiau o sut mae ysgolion a gyllidir gan y grant yn lleihau maint eu dosbarthiadau babanod

- Cymryd un dosbarth babanod mawr blaenorol ag oddeutu 30 o ddysgwyr a chreu dau ddosbarth llai ag oddeutu 15 o ddysgwyr.
- Cymryd dau ddosbarth babanod mawr blaenorol (ag oddeutu 60 o ddysgwyr) a chreu tri dosbarth llai ag oddeutu 20 o ddysgwyr.
- Creu dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen oed cymysg er mwyn i'r holl fabanod elwa ar ddosbarthiadau babanod llai o faint.
- Creu dosbarth ychwanegol ar gyfer grwpiau blwyddyn unigol lle roedd dosbarthiadau babanod blaenorol yn cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg.
- Creu dosbarthiadau targed llai ar gyfer dysgwyr y mae angen cymorth â ffocws arnynt (oddeutu 10 o ddysgwyr).



Is you could fly around  
Monday at night when  
could you go and what  
could you get up to?

# Effaith ansoddol y grant

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad dosbarthiadau llai yw'r unig ffactor wrth godi safonau. Dim ond un o gyfres o bolisïau a rhaglenni yw'r grant, sydd yn codi safonau ar gyfer pob dysgwr, gan gefnogi'n enwedig y dysgwyr hynny sydd o gefndir mwy difreintiedig.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y gall dosbarthiadau llai gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ansoddol. Felly, ar ôl un flwyddyn academaidd lawn o gyllid grant, roeddem yn awyddus i archwilio'r effaith y mae'r grant yn ei chael o safbwynt ansoddol, yn yr ysgolion a dargedir. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb gwybod a yw llai o ddosbarthiadau babanod wedi arwain at newidiadau mewn arfer addysgu ynghyd â'r effaith y mae'n ei gael ar lwyth gwaith athrawon, lles athrawon a dysgwyr, a'r hyn y gallwn ei ddysgu o gael dosbarthiadau llai.

Er mwyn cael yr wybodaeth hon, gofynnwyd i ysgolion a dargedwyd gwblhau arolwg i ganfod y buddiannau ansoddol a nodwyd ganddynt o ganlyniad o gael dosbarthiadau llai. Gofynnwyd i'r ysgolion hefyd a oeddent yn gallu nodi'r manteision yr oedd y grant yn eu cael mewn perthynas â'r meini prawf yr oedd yn eu targedu, h.y. y manteision y mae wedi'u cael ar ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd ag ADY. Gofynnwyd hefyd i'r ysgolion a oedd ganddynt unrhyw broblemau wrth weithredu dosbarthiadau llai ac a ellid cynnal y dosbarthiadau.

O'r ysgolion a dargedwyd, mae 57 (74 y cant) wedi dychwelyd arolygon wedi'u cwblhau hyd yn hyn yn nodi'r buddiannau canlynol yn y tabl isod.

Buddiannau bwriadedig y grant	Nifer yr ysgolion a nododd eu bod wedi cael budd o'r grant
Mwy o amser cyswllt rhwng athrawon/dysgwyr	57 (100%)
Cyflawniad gwell gan ddysgwyr	55 (96%)
Ymddygiad/agwedd well gan ddysgwyr	45 (79%)
Presenoldeb gwell gan ddysgwyr	18 (32%)
Lles gwell ymhlith staff	52 (91%)
Lles gwell ymhlith dysgwyr	45 (79%)
Dysgu ac addysgu gwell yn yr ystafell ddosbarth	48 (84%)
Cwricwlwm wedi'i gyfoethogi	47 (82%)
Llwyth gwaith llai i athrawon	40 (70%)
Lefelau is o salwch ymhlith athrawon	21 (37%)
Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol	38 (67%)

Nododd nifer bach o ysgolion fuddiannau ychwanegol megis mwy o ymgysylltiad â rhieni/gofalwyr – sydd wedi'u galluogi i gryfhau cydberthnasau rhwng yr ysgol a'r cartref gan fod mwy o amser i gydgyfylltu.



## Effaith ar feini prawf targed

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn nodi buddiannau a gwelliannau i ddysgwyr ar draws y Cyfnod Sylfaen, ni waeth pa nodwedd sydd ganddynt. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos sut mae'r grant yn rhoi budd i wahanol ddysgwyr gyda nodweddion yn y meini prawf targed ac ysgolion sydd angen cymorth pellach. Dilynir y rhain gan ddyfyniadau dienw o ysgolion ar sut y mae'r grant wedi bod o fudd i'w dysgwyr a'u hysgol.

## Cymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM)

Ar y cyfan mae ysgolion yn nodi eu bod yn gweld gwelliannau ym mherfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mewn rhai achosion maent yn perfformio gystal â dysgwyr nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim. Nododd un ysgol lle mae gan ddysgwyr y nodwedd eFSM yn unig, fod eu perfformiad yn gwella, ond lle mae dysgwyr yn bodloni sawl un o'r meini prawf, nid yw'n gwella cystal.

*“Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim roeddem yn bryderus yn eu cylch, h.y. y rheini na ragwelwyd y byddant yn cyflawni Deilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, bellach wedi cyflawni'r deilliant disgwylidig mewn un neu fwy o'r meysydd dysgu.”*

*“Rydym wedi llwyddo i leihau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheiny sydd ddim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy gael dosbarthiadau llai eleni.”*

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Ar y cyfan, mae ysgolion â lefelau sylweddol o ddysgwyr sydd ag ADY yn nodi gwelliannau yn eu cynnydd. Mae un ysgol wedi nodi bod dysgwyr sydd ag anawsterau iaith a lleferydd sylweddol wedi gwneud cryn gynnydd a bod therapyddion lleferydd allanol wedi sylwi ar hyn.

*“Mae dysgwyr ar gynlluniau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn y Cyfnod Sylfaen wedi cael eu targedu gyda chymorth llythrennedd ychwanegol mewn grwpiau bach. Mae'r dysgwyr hyn wedi gwneud cynnydd gwell ers i'r grant gael ei gyflwyno.”*

## Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol (CIY/SIY)

Ar y cyfan, mae ysgolion â lefelau sylweddol o ddysgwyr CIY/SIY yn nodi gwelliannau mewn cynnydd.

*“Roedd naw dysgwr ym Mlynnyddoedd 1 a 2 yn defnyddio Saesneg fel iaith ychwanegol. Gwnaeth yr holl ddysgwyr gynnydd gwerth ychwanegol da o leiaf yn y Maes Dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.”*

## Ysgolion yn y categori coch/oren yn y system gategoreiddio ysgolion

Mae nifer yr ysgolion a oedd yn y categori coch neu oren yn y system gategoreiddio ysgolion wedi lleihau yn ystod cyfnod y grant, ond ni allwn ddweud mai'r grant yw'r unig reswm dros hyn.

Rhoddwyd un ysgol gynradd yn y categori oren am y ddwy flynedd flaenorol gydag un o'r argymhellion i wella darpariaeth a safonau yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod 'Ymweliadau Craidd' gan y Cynghorydd Herio, nodwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran gwella'r Cyfnod Sylfaen. Mae dysgu ac addysgu wedi gwella yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod blwyddyn gyntaf y grant.

*“Rydym wedi gallu darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y grwpiau o blant a nodwyd sydd wedi effeithio ar eu canlyniadau. Rhoddwyd yr ysgol yn y categori 'Gwyrdd' yn ystod ein hymweliad categoreiddio diwethaf.”*

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae statws categori ysgolion a gyllidir gan y grant yn y system gategoreiddio ysgolion wedi newid ers cyflwyno'r grant. Mae llai o ysgolion a gyllidir gan y grant yn y categori coch ac oren a mwy yn y categori gwyrdd a melyn.

Categori	2017	2018
Coch	10 (9%)	4 (3%)
Oren	30 (26%)	16 (14%)
Melyn	40 (35%)	49 (43%)
Gwyrdd	35 (30%)	46 (40%)



# Rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Fel rhan o'r arolwg diwedd blwyddyn academiaidd ysgolion, gwnaethom ofyn i'r ysgolion a oeddent wedi cael unrhyw broblemau wrth roi'r grant ar waith a lleihau maint eu dosbarthiadau.

Nid oedd y mwyafrif o'r ysgolion a oedd yn elwa ar gael athro ychwanegol wedi profi unrhyw broblemau wrth roi'r grant ar waith a lleihau maint eu dosbarthiadau. Un o'r prif broblemau i nifer bach o ysgolion oedd y diffyg lle i wneud defnydd llawn o athro ychwanegol. Mewn achosion o'r fath, mae ysgolion wedi defnyddio'r athro i gefnogi grwpiau llai o ddysgwyr (oddeutu 10) ar gyfer cymorth wedi'i dargedu. Mae ysgolion eraill sy'n elwa ar yr elfen gyfalaf yn defnyddio lle presennol, h.y. dau athro mewn un ystafell ddosbarth, nes y gellir defnyddio ystafelloedd dosbarth ychwanegol.

Mae dosbarthiadau ychwanegol wedi arwain at yr angen am adnoddau ychwanegol lle mae ysgolion yn defnyddio ystafelloedd gwag presennol neu'n rhannu adnoddau. Lle y tynnwyd ein sylw at hyn, rydym wedi rhoi gwybod i awdurdodau lleol y gellir rheoli cyllid ar gyfer adnoddau ychwanegol o fewn eu dyraniad grant cyffredinol.

Rydym hefyd wedi egluro y gellir bodloni costau cysylltiedig fel amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) o fewn y dyraniad cyffredinol.

## Cynaliadwyedd

Fel rhan o'u cynlluniau busnes ar gyfer y grant, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos sut roedd eu cynigion yn bwriadu sicrhau cynaliadwyedd ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben. Fel rhan o'r arolwg, gwnaethom ofyn i'r ysgolion a fyddent yn gallu cadw'r athro ychwanegol ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben.

Dywedodd y mwyafrif o'r ysgolion sy'n elwa ar elfen refeniw'r grant yn unig na fyddant yn gallu cadw athro ychwanegol ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben. Mae ysgolion yn nodi bod cyllidebau'n mynd yn fwy heriol bob blwyddyn ac y byddai cadw athrawon ychwanegol yn golygu y byddai diffyg yn eu cyllideb.

Dywedodd nifer bach iawn o ysgolion y byddent yn ystyried y posibilrwydd o gadw'r dosbarthiadau hyn drwy eu Grant Datblygu Disgyblion neu drwy reoli cyllideb eu hysgol yn ofalus iawn.

Fodd bynnag, mae'r grant wedi galluogi rhai ysgolion i roi cyfle i athrawon rannu arbenigedd a chynllunio gwersi gyda'i gilydd a bydd hyn yn parhau ar ôl cyfnod y grant.

Mae rhai ysgolion hefyd wedi defnyddio athrawon newydd gymhwyso (ANGau) sydd wedi bod o fudd i'r athrawon hyn gan fod hyn wedi'u galluogi i gael rhagor o brofiad wrth iddynt ddatblygu yn eu gyrfa. Mae cynorthwyrwyr addysgu presennol, sydd eisoes wedi'u cyflogi, wedi gallu uwchsgilio a datblygu eu rolau a fydd yn parhau i gael effaith gadarnhaol yn yr ysgolion.

Byddwn yn parhau i fonitro'r effaith y mae'r grant yn ei gael ar yr ysgolion a'r dysgwyr ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd.



# Codi safonau i bawb: Adborth gan ysgolion

## Caerau Primary School, Pen-y-bont ar Ogwr

Heb os, mae'r arian grant hwn wedi cael effaith sylweddol ar les y disgyblion a'r staff. Mae hefyd wedi ein galluogi i gael dosbarthiadau llai o ran niferoedd felly mae ein darpariaeth yn cael ei gwahaniaethu'n effeithiol a'i chyflwyno i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion mewn ffordd llawer mwy priodol. Rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran lles disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae achosion o 'ymddygiad gwael' wedi lleihau. Mae hyn yn galluogi'r holl ddisgyblion i fod â 'meddylfryd' dysgu cadarnhaol, a'r effaith ddilynol yw bod dysgu'r disgyblion wedi gwella hefyd. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deiliant disgwylidig, neu'n well na hynny, yn y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu. Rydym yn gallu cynnal ystod o ymyriadau a ddarparwyd yn y Cyfnod Sylfaen felly rydym yn gweld ein disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn benodol yn llenwi bylchau yn eu dysgu, sy'n cael effaith ar eu lles a'u deiliant erbyn diwedd y cyfnod. Mae effaith y grant wedi bod yn arbennig o effeithiol i'n bechgyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Ysgol y Graig, Ynys Môn

Dyma grant sydd, o'r diwedd, yn cael effaith gadarnhaol wirioneddol ar les a safonau'r plant mwyaf agored i niwed a dan anfantais yn ein cymdeithas. Mae'r plant hyn bellach yn derbyn yr addysg y maent yn ei haeddu.

## Central Primary School, Castell-nedd Port Talbot

Mae'r grant wedi bod o fudd aruthrol i'n disgyblion, gan alluogi'r staff i dreulio amser arbennig â nifer bach o ddisgyblion. Mae cyfleoedd gwell i ddisgyblion gydweithredu a datblygu eu hannibyniaeth wedi cael eu darparu i niferoedd llai lle mae wedi bod yn bosibl cyflwyno cwricwlwm wedi'i deilwra'n fwy. Mae ymddygiad cadarnhaol ac agweddau cadarnhaol at ddysgu wedi cynyddu'n sylweddol. Ni ellir gorbwysleisio'r effaith gysylltiedig ar welliant yr ysgol a lles y disgyblion.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn, Rhondda Cynon Taf

Mae'r grant wedi gwella pethau'n sylweddol i ni ac mae wedi ein helpu i gynnal niferoedd llawn o ran staff a dosbarthiadau llai o faint.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago, Abertawe

Mae'r niferoedd llai yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen wedi galluogi'r ysgol i ganolbwyntio mwy ar unigolion. Mae hyn wedi arwain at godi safonau yn y dosbarthiadau. Mae cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau llai wedi gwella profiadau dysgu'r disgyblion ac mae wedi galluogi'r athrawon i sicrhau bod yr holl blant yn datblygu i'w potensial llawn.

### **Thornwell Primary School, Sir Fynwy**

Eleni mae gennym wyth dysgwr sydd wedi cyflawni Deilliant 6 mewn ysgrifennu; nid oedd unrhyw un y llynedd. Ni wnaeth saith o'r dysgwyr hyn orffen y flwyddyn ddiwethaf ar Ddeilliant 5. Rydym yn teimlo y gellir priodoli hyn i'r capasiti ychwanegol y mae'r athro wedi'i ddarparu, gan alluogi'r athrawon dosbarth i gael cynnydd gwell na'r disgwyl ar gyfer grŵp o ddysgwyr abl.

### **Ysgol Cae'r Nant, Sir y Fflint**

Mae'r grant wedi bod o fudd enfawr i'n disgyblion. Rwyf wir yn teimlo y byddai dychwelyd i ddosbarthiadau â 30 o ddisgyblion yn y dyfodol yn gam yn ôl.

### **Awel y Môr Primary School, Castell-nedd Port Talbot**

Mae cael dosbarthiadau llai o faint yn ein galluogi ni fel athrawon i weithio'n agosach gyda phlant unigol. Rydym yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion ond yn cydnabod bod angen lefelau gwahanol o gymorth ar ddisgyblion, ac mae'n haws cyflawni hyn mewn dosbarthiadau llai.

# Astudiaeth achos: Enghraifft o sut mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio mewn un awdurdod lleol

Mae'r grant ar gael i ysgolion drwy'r awdurdodau lleol a nododd yr ysgolion a oedd yn bodloni'r meini prawf i elwa ar y grant. Dyrannwyd yr elfen refeniw ar sail fformiwla a oedd yn ystyried nifer y dosbarthiadau o 29 o ddysgwyr a mwy ym mhob awdurdod lleol gan ddefnyddio cyfartaledd pedair blynedd o ddata CYBLD rhwng 2013 a 2016. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y grant yn targedu'r ardaloedd â'r meintiau dosbarth mwyaf er mwyn sicrhau bod y grant yn cael yr effaith fwyaf. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau am yr elfen gyfalaf lle'r oedd angen ystafelloedd dosbarth ychwanegol i leihau maint dosbarthiadau. Aseswyd ceisiadau am gyfalaf gan ddefnyddio proses bresennol Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut mae un awdurdod lleol wedi dyrannu ei refeniw i ddarparu athrawon ychwanegol. Mae hefyd yn dangos sut y mae'r elfen gyfalaf wedi manteisio i'r eithaf ar y buddiannau drwy ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian. Mae'n dangos wedyn sut y mae un o'i ysgolion (Llanharan Primary School) wedi lleihau maint ei dosbarthiadau a sut y bydd yn parhau i elwa ar yr ystafelloedd dosbarth ychwanegol.

## Rhondda Cynon Taf

Dyfarwyd £1,384,904 o gyllid refeniw a £1,600,000 o gyllid cyfalaf i Rhondda Cynon Taf (RCT).

Mae RCT wedi bod yn ariannu chwe athro ychwanegol a chwe chynorthwydd addysgu ychwanegol mewn chwech o'i ysgolion cynradd.

- Gelli Primary School – roedd gan yr ysgol hon ddau ddsbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag ADY.
- Llanharan Primary School – roedd gan yr ysgol hon dair dosbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag ADY.
- Parc Lewis Primary School – roedd gan yr ysgol hon dair dosbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dysgwyr sydd ag ADY a dysgwyr SIY.
- Penywaun Primary School – roedd gan yr ysgol hon ddau ddsbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag ADY, ac roedd yn y categori oren yn y system gategoreiddio ysgolion.
- Pontygwaith Primary School – roedd gan yr ysgol hon un dosbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag ADY, ac roedd yn y categori oren yn y system gategoreiddio ysgolion.
- Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn – roedd gan yr ysgol hon un dosbarth babanod o 29 o ddysgwyr a mwy, gyda lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag ADY.

Mae'r cyllid cyfalaf yn creu ystafelloedd dosbarth ychwanegol mewn tair o'r ysgolion.

- Gelli Primary School – £800,000 i ddarparu estyniad â dwy ystafell ddosbarth ychwanegol a gwelliannau i'r ardal chwarae awyr agored.
- Llanharan Primary School – £600,000 i ddarparu estyniad â dwy ystafell ddosbarth ychwanegol a gwelliannau i'r ardal chwarae awyr agored.
- Parc Lewis Primary School – £200,000 i droi dwy ystafell ddosbarth fawr â chynllun agored yn pedair ystafell ddosbarth addysgu a gwelliannau i'r ardal chwarae awyr agored.

### **Llanharan Primary School**

Roedd yr ysgol hon yn bodloni'r meini prawf gan fod ganddi ddau ddosbarth babanod â 29 o ddysgwyr a mwy, a lefelau sylweddol o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Er bod Llanharan Primary School yn aros am waith cyfalaf i ddarparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, mae wedi defnyddio'r athro a'r cynorthwydd addysgu ychwanegol yn eu hystafelloedd dosbarth presennol, gan rannu lle ac adnoddau.

Yn flaenorol, roedd gan yr ysgol dwy ddosbarth mwy o grwpiau blwyddyn cymysg. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r cyllid refeniw i ddarparu grwpiau blwyddyn ar wahân ar gyfer meithrin a babanod. Mae data CYBLD o fis Ionawr 2019 yn dangos meintiau ei dosbarthiadau babanod fel athro Derbyn â dosbarth o 17, athro Blwyddyn 1 â dosbarth o 18 ac athro Blwyddyn 2 â dosbarth o 19.

Dechreuodd gwaith cyfalaf ym mis Ebrill 2019 ac, ar hyn o bryd, disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2020. Bydd yr estyniad yn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol ar gyfer yr ysgol a fydd yn golygu y bydd pedair ystafell ddosbarth ar wahân yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ei dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i ateb y galw am leoedd yn y dyfodol. Bydd yr ystafelloedd dosbarth ychwanegol hefyd yn galluogi'r ysgol i ddarparu gofal cofleidiol, a fydd yn helpu i gefnogi rhieni/gofalwyr sydd am weithio llawn amser, a bydd gan yr ystafelloedd dosbarth fynediad uniongyrchol mwy diogel a chyfleusterau cegin priodol a chyfleusterau toiled â mynediad addas i bobl anabl.



# Atodiad 1: Rhestr o ysgolion sydd wedi elwa ar y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

## Abertawe

Ysgol Gynradd Hendrefoilan, Ysgol Gynradd Parkland, Penyrheol Primary School, Sea View Primary School, Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago.

## Blaenau Gwent

Cymuned Addysgu Abertyleri, Blaen-y-Cwm Primary School, St Illtyd's Primary School, Willowtown Community Primary School.

## Bro Morgannwg

Cadoxton Primary School, Gladstone Primary School, High Street Primary School, Holton Primary School, Romilly Primary School.

## Caerdydd

Bryn Hafod Primary School, Ysgol Gynradd Greenway, Ysgol Gynradd Hywel Dda, Moorland Primary School, Oakfield Primary School, Ysgol Gynradd Pencaerau, Pentreban Primary School, Ysgol Gynradd Gatholig St Alban's, St Fagan's CW Primary School, St Francis RC Primary School, Ysgol Gynradd St Mary the Virgin Church in Wales, Trelai Primary School, Ysgol Gynradd Trowbridge.

## Caerffili

Greenhill Primary School, Panside Primary School, Park Primary School, Ysgol Gynradd Rhydri, St James Primary School.

## Casnewydd

Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Lliswerry, Maesglas Primary School, Maindee Primary School, St Gabriel's RC Primary School, St Woolos Primary School, Ysgol Gynradd Somerton, Tredegar Park Primary School.

## Castell-nedd Port Talbot

Awel y Môr Primary School, Central Primary School, Ysgol Gynradd Crynallt, Ysgol Gynradd y Gnoll, Ysgol Gynradd Tywyn, Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd, Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos-Afan.

### **Ceredigion**

Ysgol Gynradd Gymunedol Pontrhydfendigaid, Ysgol Bro Pedr, Ysgol Gynradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Llanilar.

### **Conwy**

Ysgol Capelulo, Ysgol Nant y Groes, Ysgol Reoledig Llansansior, Ysgol Sŵn y Don.

### **Gwynedd**

Ysgol Craig y Deryn, Ysgol Ein Harglwyddes, Ysgol Glancegin, Ysgol Maenofferen, Ysgol Gynradd Maesincla, Ysgol Gymuned Penisarwaen, Ysgol Gynradd Tanygrisiau, Ysgol y Faenol.

### **Merthyr Tudful**

Coed y Dderwen Primary School, Goetre Primary School, Ysgol Gynradd Trelewis, Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful.

### **Pen-y-bont ar Ogwr**

Caerau Primary School, Croesty Primary School, Pil Primary School, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.

### **Powys**

Ysgol Ladywell Green, Llandrindod Wells C. P. School, Maesyrhandir CP School, Ysgol Feithrin a Babanod Mount Street, Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr.

### **Rhondda Cynon Taf**

Gelli Primary School, Llanharan Primary School, Parc Lewis Primary School, Penywaun Primary School, Pontygwaith Primary School, Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.

### **Sir Benfro**

Fenton Community Primary School, Ysgol Gymunedol Gelli Aur, Neyland Community School, Ysgol Gelliswick, Ysgol Glannau Gwaun, St Mary's Catholic Primary School<sup>2</sup>/Ysgol Gymunedol Croesgoch.

### **Sir Ddinbych**

Christchurch C.P. School, Ysgol Gymunedol Bodnant.

<sup>2</sup> Caewyd yr ysgol a throsglwyddwyd y cyllid i Ysgol Gymunedol Croesgoch.

**Sir Fynwy**

Ysgol Gynradd Parc y Castell, Ysgol Gynradd a Meithrin Thornwell.

**Sir Gaerfyrddin**

Ysgol Gynradd Bigyn, Ysgol Bro Banw, Ysgol Bryn Teg, Ysgol Gymunedol Maes y Morfa, Ysgol Pen Rhos, Ysgol Gynradd Penygroes, Ysgol Gynradd Saron, Ysgol Gynradd Bynea, Ysgol y Castell, Ysgol y Ddwylan.

**Sir y Fflint**

Queensferry C. P. School, Saltney Ferry C. P. School, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Ysgol Cae'r Nant, Ysgol Glan Aber.

**Torfaen**

Blaenavon Heritage VC Primary School, Garnteg Primary School, George Street Primary School, Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn, Woodlands Community Primary School.

**Wrecsam**

Barker's Lane Community School.

**Ynys Môn**

Ysgol Gynradd Llanfawr, Ysgol y Graig.

# Atodiad 2: Crynodeb o waith cyfalaf

Cyflwynodd 16 o awdurdodau lleol geisiadau am gyllid cyfalaf, fel y nodir yma.

## Abertawe – £1,918,749

### Ysgol Gynradd Hendrefoilan – £705,009

Mae'r cyllid yn darparu estyniad newydd i'r prif adeilad presennol. Bydd yn creu un ystafell ddosbarth ychwanegol, cyfleusterau storio, toiledau ar gyfer dysgwyr a staff, a bydd yn cynnwys seilwaith fecanyddol newydd er mwyn gallu estyn yr adeilad ymhellach yn y dyfodol.

### Sea View Primary School – £539,750

Defnyddir y cyllid ar gyfer gwneud gwaith ailfodelu mewnol i'r holl ystafelloedd dosbarth er mwyn creu ardaloedd addysgu mwy priodol yn ogystal â dosbarth ychwanegol. Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd costau rhedeg/gwresogi yr adeilad yn sylweddol a bydd y gwelliannau hyn i adeiladwaith yr ysgol yn helpu i leihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw.

### Penyrheol Primary School – £162,812

Defnyddir y cyllid i ailfodelu ac ailwampio dwy ystafell ddosbarth fawr bresennol â chynllun agored gan eu troi yn bedair ystafell ddosbarth newydd. Bydd yr ysgol hefyd yn elwa ar neuadd fwy wedi'i hailfodelu ac ardal dan do er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

### Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago – £511,178

Defnyddir y cyllid i ailfodelu adeilad ffreutur presennol yr ysgol ar y safle babanod er mwyn darparu un ystafell ddosbarth ychwanegol. Bydd y gwaith ailfodelu hwn hefyd yn cynnwys adleoli prif swyddfa'r ysgol a swyddfa'r pennaeth o'r safle iau, a fydd yn golygu y bydd lle storio gofynnol ar y safle iau ar gyfer y gegin newydd a'r ardaloedd cysylltiedig.

## Blaenau Gwent – £199,600

### Willowtown Community Primary School – £129,600

Mae'r cyllid yn darparu addasiadau mewnol er mwyn creu ystafell ddosbarth ychwanegol, gan gynnwys ardal adnoddau fewnol a rennir a thoiledau wedi'u hailfodelu. Bydd yr ysgol hefyd yn elwa ar amgylchedd dysgu a chwarae parhaol yn yr awyr agored er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

### St Illtyd's Primary School – £70,000

Mae'r cyllid yn golygu y gellir ailfodelu cyfleusterau presennol er mwyn creu ardal addysgu ychwanegol. Bydd hyn hefyd yn darparu man hyblyg ar gyfer addysgu a rhannu'n grwpiau er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a sesiynau ymgysylltu â theuluoedd. Bydd yr ysgol hefyd yn elwa ar amgylchedd chwarae addas i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

**Caerdydd – £3,000,000****Oakfield Primary School – £1,000,000**

Mae'r cyllid wedi darparu estyniad modiwlwr â phedair ystafell ddosbarth ar gyfer yr ysgol, gydag ystafelloedd grwpiau a thoiledau, â llwybr dan do i'r brif ysgol. Mae'r pedair ystafell ddosbarth ychwanegol yn galluogi pob dosbarth i gael ei ystafell ei hun ac mae'n golygu nad oes yn rhaid dibynnu ar ystafelloedd dosbarth mewn cabanau. Mae lle ar gyfer ystafelloedd lle y gellir rhannu'n grwpiau hefyd ac mae'n golygu y gall yr ysgol ddarparu'r Cynnig Gofal Plant.

**St Fagan's CW Primary School – £1,000,000**

Mae'r cyllid yn galluogi'r ysgol i ailfodelu ei hadeilad er mwyn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol a gwneud defnydd mwy effeithiol o'i hamgylchedd addysgu. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**St Francis RC Primary School – £1,000,000**

Mae'r cyllid yn darparu estyniad a gwaith ailfodelu i gyfleusterau presennol er mwyn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol i wneud defnydd mwy effeithiol o'r amgylchedd dysgu. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Casnewydd – £1,100,661****Maesglas Primary School – £520,661**

Bydd y cyllid yn darparu adeilad meithrin ar wahân â dwy ystafell ddosbarth ar safle'r ysgol. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i ddefnyddio'r ddwy ystafell ddosbarth bresennol i leihau maint y dosbarthiadau babanod.

**St Woolos Primary School – £580,000**

Defnyddir y cyllid i ailwampio rhandy ar wahân er mwyn creu cegin a ffreutur pwrpasol mawr eu hangen. Bydd hyn yn golygu y gall yr ysgol ddarparu cyfleusterau bwyta priodol yn hytrach na pharatoi prydau oddi ar y safle a dod â nhw i'r ysgol. O ganlyniad, bydd yr ystafell bresennol yn gallu cael ei defnyddio fel ystafell ddosbarth er mwyn creu dosbarthiadau llai ar gyfer grwpiau blwyddyn ar wahân.

**Castell-nedd Port Talbot – £1,890,000****Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos-Afan – £1,340,000**

Bydd y cyllid yn darparu estyniad ar wahân parhaol gyda phedair ystafell ddosbarth, gan gynnwys toiled, ystafell gotiau ac ardal rydd. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cynllun hirdymor yr ysgol sef adeiladu ysgol newydd ar y safle presennol, ateb y galw cynyddol am addysg Gymraeg a lleihau maint y dosbarthiadau babanod.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd – £325,000**

Bydd y cyllid yn darparu ystafell ddosbarth ychwanegol ar ffurf caban oherwydd cyfyngiadau ar y safle. Bydd hyn hefyd yn helpu i ateb y galw yn y dyfodol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

**Ysgol Gynradd y Gnoll – £225,000**

O ganlyniad i'r cyllid, bydd yr ysgol yn cael ei hailfodelu er mwyn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol. Bydd adeilad presennol yr ysgol yn cael ei ailwampio hefyd, caiff y thoiledau eu hadnewyddu a chaiff ardal ddysgu awyr agored dan do ei chreu er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.



**Ceredigion – £1,600,000****Ysgol Gynradd Aberteifi – £1,00,000**

Bydd y cyllid yn ymgorffori'r ddau adeilad presennol sydd wedi'u cysylltu â llwybr dan do ar hyn o bryd er mwyn darparu ardaloedd addysgu ychwanegol, mwy addas gan olygu na fydd yn rhaid defnyddio neuadd yr ysgol. Caiff estyniad newydd ei godi ar gyfer y dosbarth Derbyn. Bydd yr ysgol yn elwa ar brif fynedfa gymunedol newydd, ardal swyddfa, ystafell gymunedol/cyfrifiaduron ac ystafell staff newydd gyda thoiledau a hyd at bedair ardal adnoddau.

**Ysgol Gynradd Gymunedol Pontrhydfendigaid – £600,000**

Bydd y cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth newydd ar gyfer yr ysgol ynghyd ag ystafell gotiau/toiledau ac ardal rydd. Bydd hyn hefyd yn golygu y gellir defnyddio ystafell, sy'n cael ei defnyddio fel ystafell ddosbarth ar hyn o bryd, fel ardal adnoddau/ymyriadau gan wneud cynllun yr ysgol yn fwy effeithlon ac ymarferol ar gyfer cynnal gwersi.

**Conwy – £300,000****Ysgol Capelulo**

Y cynigion presennol yw ychwanegu ystafell ddosbarth ychwanegol gydag ardal ategol ac ardal rydd, a thoiledau newydd. Mae'r prosiect wedi'i ohirio ar hyn o bryd wrth i opsiynau gael eu hystyried.

**Gwynedd – £600,000****Ysgol Glancegin**

Bydd y cyllid yn darparu estyniad mawr ei angen i gefnogi dosbarthiadau llai a'r twf disgwylidig yn nifer y plant yn nalgylch yr ysgol sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Merthyr Tudful – £931,000****Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful – £661,000**

Bydd y cyllid yn darparu estyniad ar wahân ar gyfer dwy ystafell ddosbarth, gan gynnwys toiledau a chyntedd. Bydd yr ysgol yn cael gwared ar hen gabanau a chaiff ardaloedd chwarae awyr agored eu creu er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

**Trelewis Primary School – £270,000**

Bydd y cyllid yn darparu estyniad ag un ystafell ddosbarth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r ysgol i gynyddu'r lle presennol sydd ganddi ar gyfer darparu'r Cynnig Gofal Plant.

**Pen-y-bont ar Ogwr – £750,000****Ysgol Gymraeg Bro Ogwr – £200,000**

Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i addasu dwy ystafell fach er mwyn creu un ystafell ddosbarth o faint addas.

**Ysgol Gynradd Croesty – £550,000**

Mae'r cyllid yn darparu estyniad â dwy ystafell ddosbarth ar gyfer uned bresennol y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn golygu y gellir addysgu holl flynyddoedd y Cyfnod Sylfaen mewn un adeilad a rheoli dosbarthiadau llai o faint yn fwy effeithiol.

**Powys – £600,000****Ysgol Dyffryn y Glowyr**

Mae'r cyllid yn cyfrannu at brosiect mawr gwerth £2.2 miliwn i greu darpariaeth blynyddoedd cynnar newydd, addas at y diben ar ffurf bloc â phedair ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a dwy ystafell ddosbarth ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i leihau maint ei dosbarthiadau babanod a chael lle i ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn y dyfodol. Mae'r prosiect cyfan yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn gyfrifol am y mwyafrif o'r costau.

**Rhondda Cynon Taf – £1,530,000****Gelli Primary School – £730,000**

Bydd y cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth newydd a gwelliannau i'r ardal chwarae awyr agored er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

**Llanharan Primary School – £600,000**

Mae'r cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth newydd a gwelliannau i'r ardal chwarae awyr agored er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i gael dosbarthiadau ar wahân ar gyfer pob grŵp blwyddyn a chefnogi darpariaeth y Cynnig Gofal Plant.

**Parc Lewis Primary School – £200,000**

Defnyddir y cyllid i wneud gwaith ailfodelu ac ailwampio mewnol er mwyn creu ystafell ddosbarth ychwanegol a gwella'r ardal chwarae awyr agored i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

**Sir Benfro – £308,165****Fenton Community Primary School**

Bydd y cyllid yn darparu estyniad ag ystafell ddosbarth ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, addasiadau i'r ardaloedd cyfagos ac mae angen adnewyddu'r toiledau ar gyfer y ddarpariaeth bresennol.

## Sir Gaerfyrddin – £2,000,000

### Ysgol y Ddwylan – £495,000

Mae'r cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol gan gynnwys addasiadau mewnol i'r ysgol bresennol er mwyn darparu mynediad a llwybr rhydd i'r ystafelloedd dosbarth newydd.

### Ysgol Gynradd Bynea – £540,000

Mae'r cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol gan gynnwys addasiadau mewnol i'r ysgol bresennol er mwyn darparu mynediad a llwybr rhydd i'r ystafelloedd dosbarth newydd. Mae gwaith allanol yn cynnwys ardaloedd addysgu awyr agored dan do er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

### Ysgol Gynradd Saron – £485,000

Mae'r cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol gan gynnwys addasiadau mewnol i'r ysgol bresennol er mwyn darparu mynediad a llwybr rhydd i'r ystafelloedd dosbarth newydd. Mae gwaith allanol yn cynnwys ardaloedd addysgu awyr agored dan do er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

### Ysgol Gynradd Penygroes – £480,000

Mae'r cyllid yn darparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol newydd mewn adeilad ar wahân gyda thoiledau a mynediad dan do i'r brif ysgol. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys ardal addysgu yn yr awyr agored dan do, sy'n gysylltiedig â'r llwybr dan do, er mwyn cefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

## Sir y Fflint – £1,320,000

### Ysgol Glan Aber

Mae'r cyllid a ddyfarnwyd yn rhan o brosiect gwerth £2.317 miliwn i adeiladu estyniad newydd ac ailfodelu cyfleusterau presennol. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys cegin ac ystafell arlwy a gaiff eu hadeiladu at y diben, ystafell ddosbarth newydd ychwanegol ac ardaloedd storio. Yn ogystal, bydd estyniadau i ystafelloedd dosbarth presennol er mwyn bodloni gofynion sylfaenol i wneud lle ar gyfer 30 o ddysgwyr. Bydd hen glwb ieuencid cyfagos yn cael ei ddymchwel a chaiff neuadd ysgol newydd ei hadeiladu at y diben yn ei le.

## Wrecsam – £1,000,000

### Barker's Lane Community School

Bydd y cyllid yn darparu pedair ystafell ddosbarth ychwanegol gan gynyddu capasiti'r ysgol 50 y cant a chreu 15 o leoedd ychwanegol ym mhob grŵp blwyddyn. Cynigir y bydd hyn yn arwain at leihau maint dosbarthiadau yn ehangach ar draws canol y dref mewn hyd at naw ysgol gynradd arall sydd bob amser yn llawn.